Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd brynhawn Sadwrn y 21ain o Hydref 2023 am 4.30 yng Ngwesty'r Diplomat, Llanelli

Yn Bresennol:

Goronwy Wynne (Llywydd), Iona Evans (Cadeirydd y Gymdeithas), Hywel Madog Jones (Is-gadeirydd), Catrin Evans, John Wesley Evans, Shelagh Fishlock, Jackie James, Elsbeth James, Mal James, Enid Jones, Rhisiart ap Gwilym, Mair Owens, Carys M Parry, John M Parry, Elizabeth Roberts, Amanda Skull, Will Tyler, Carwen Wigley Vaughan, Jackie James, Alan Williams, Harri Williams, Philip Williams, Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion) (23)

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd Iona Evans bawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan nodi ei bod yn falch o weld cymaint o aelodau'n mynychu cynhadledd mewn ardal newydd ac ymuno â thaith gerdded yn y bore.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eirian Davies, Anne Gwynne, Annwen Jones. Gareth W Jones (Ysgrifennydd), Dafydd Lewis, Haf Meredydd, Gwyn Roberts. Iwan Roberts a Margaret Roberts (Trysorydd).

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am farwolaeth ddiweddar Dyfed Elis-Gruffydd, cyn-Gadeirydd Cymdeithas Edward Llwyd. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd anfon cydymdeimlad y Gymdeithas at ei wraig (**pwynt gweithredu**)

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2022

Cynigiodd Rhisiart ap Gwilym ac eiliodd Amanda Skull dderbyn cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 28ain o Hydref 2022 yn gofnod cywir. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 17: Dyfodol y Gynhadledd Flynyddol Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith (PG) yn argymell dilyn y patrwm arferol a chynnal cyfarfod penwythnos yng Ngogledd Cymru yn 2024 gyda'r Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ystod y cyfarfod. Dywedwyd eu bod yn bwriadu defnyddio'r Cylchlythyr i ofyn barn yr aelodau am fformatau amgen a drafodwyd gan y PG. Cytunodd yr aelodau drwy ddangos dwylo i adael y mater yn nwylo'r PG.

5. ETHOL LLYWYDD

Gofynnwyd am gynigydd ac eilydd a dangoswyd nifer o ddwylo. Ail-etholwyd Dr. Goronwy Wynne yn Llywydd y Gymdeithas yn unfrydol.

Cymerodd Dr Wynne y Gadair a mynegodd ei ddiolch i'r aelodau am ymddiried ynddo i lywio'r Gymdeithas unwaith eto. Ychwanegodd nad oedd yn adnabod pawb yn yr ystafell

ac estynnodd groeso at unrhyw aelod a oedd yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol am y tro cyntaf.

Dywedodd ei fod yn dymuno cofnodi cymaint y byddai'r Gymdeithas yn gweld colled Dyfed Elis-Gruffydd, Ychwanegodd ei fod wedi edmygu Dr Elis-Gruffydd fel naturiaethwr a daearegwr a gofyn ei gyngor ambell waith.

6. ETHOL IS-LYWYDD

Gwahoddodd y Llywydd sylwadau. Nid oedd ymateb ac ail-etholwyd Duncan Brown a Twm Elias drwy ddangos dwylo.

7. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH: ETHOL SWYDDOGION

i. Cadeirydd: Esboniwyd bod Iona Evans yn fodlon gwasanaethu am flwyddyn arall ar ôl i'r Gymdeithas fethu â chanfod aelod sydd yn fodlon ymgymryd â'r swydd. Fe'i hail-etholwyd drwy ddangos dwylo.

Diolchodd y .Llywydd iddi am gytuno i ddal ati.

ii. Is-gadeirydd: Ail-etholwyd Hywel Madog Jones drwy ddangos dwylo.

iii. Trysorydd: Esboniwyd bod Margaret Roberts yn dymuno ymddiswyddo o'r drysoryddiaeth oherwydd amgylchiadau personol er y byddai'n fodlon parhau am gyfnod er mwyn sicrhau pontio hwylus. Dymunodd y Llywydd y gorau I Margaret. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw bod nifer o swyddogion y Gymdeithas wedi gwasanaethu am amser hir a phwysleisiodd fod sicrhau dilyniant yn y hollbwysig i ddyfodol y Gymdeithas.

Mynegodd Amanda Skull ddiddordeb yn y swydd o Drysorydd a chytunwyd y byddai'n trafod y gofynion gyda Margaret.

iv. Ysgrifennydd: Dywedwyd bod Gareth Wyn Jones yn fodlon gwasanaethu yn y flwyddyn nesaf ond ei fod yn dymuno ymddiswyddo yn 2024. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y swydd ac argymhellwyd defnyddio ystod eang o gyfryngau i'w hysbysebu gan gynnwys tudalen flaen y Cylchlythyr, cyfryngau cymdeithasol a phost-dafliad.

v. Ysgrifennydd Aelodaeth: Esboniodd Iona Evans bod Rob Evans wedi ymddiswyddo ers y Cyfarfod Blynyddol diweddaf a bod y Pwyllgor Gwaith yn diolchgar i Dafydd Lewis am ymgymryd â'r swydd, yn ogystal â golygu'r Naturiaethwr.

vi. Ysgrifennydd Cofnodion: Dywedwyd bod Jackie Willmington yn fodlon parhau yn y swydd.

Ail-etholwyd Gareth Wyn Jones, Dafydd Lewis a Jackie Willmington drwy dangos dwylo. Diolchwyd iddynt am eu gwaith.

8. ETHOL SWYDDOGION ERAILL

Trefnyddion Gweithgareddau :-

i. Gogledd Orllewin: - Esboniwyd nad oedd gwirfoddolwyr ond dywedwyd bod yr Is-gadeirydd yn fodlon parhau i lenwi'r bwlch gyda chymorth John Griffith. Argymhellodd Hywel Madog Jones benodi timau o ddau neu dri o gyd-drefnyddion er mwyn ysgafnhau'r baich a sicrhau dilyniant. Diolchodd y Llywydd iddo.

ii. Gogledd Ddwyrain: Dywedwyd bod Iwan Roberts yn fodlon parhau yn y swydd.

iii. De a'r Canolbarth: Adroddwyd bod Eirian Davies wedi bod yn Drefnydd y rhanbarth am gyfnod hir ac, er ei fod yn fodlon gwasanaethu am flwyddyn arall, ei fod wedi mynegi dymuniad i ymddiswyddo ymhen blwyddyn. Tynnodd y Llywydd sylw bod pwynt Hywel Madog Jones uchod yn berthnasol.

iv. Trefnydd y Gynhadledd Flynyddol: Adroddwyd bod Elizabeth Roberts yn fodlon parhau yn y swydd.

Ail-etholwyd y Eirian Davies, Iwan Roberts ac Elizabeth Roberts drwy ddangos dwylo a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

9. **GOLYGYDDION**

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

i) Y Naturiaethwr: Dafydd Lewis

Ii Y Cylchlythyr Gwyn Roberts

Diolchodd y Llywydd yn fawr iddynt gan ddweud ei fod yn sylweddoli pa mor bwysig oedd eu gwaith wrth gyfleu neges y Gymdeithas.

10. **CYNRYCHIOLWYR IS-BWYLLGORAU**

Llên Natur a'r Panel Enwau: Ail-etholwyd Duncan Brown drwy ddangos dwylo.

Diolchodd y Llywydd i Duncan am ei waith caled ar brosiect Llên Natur.

11. AELODAU ERAILL O'R PWYLLGOR GWAITH

Cyhoeddwyd bod Carys Meurig Parry a Rob Evans yn dymuno ymddiswyddo o'r Pwyllgor Gwaith.

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

Rhisiart ap Gwilym
John Griffith (Trefnydd y Daith Flynyddol)
Dominig Kervegant
Haf Meredydd
Alan Williams

Esboniwyd y byddai Cyfansoddiad y Gymdeithas yn caniatáu ethol hyd at dri aelod ychwanegol i'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd yr Is-gadeirydd bod angen gwella cynrychiolaeth o'r aelodau yn y de.

12. ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Esboniwyd na allai'r Trysorydd fod yn bresennol ac felly ei bod wedi anfon yr adroddiad a mantolen y flwyddyn ariannol 2022-2023 at fynychwyr y Gynhadledd ymlaen llaw gan wahodd cwestiynau drwy e-bost. Dywedwyd na dderbyniwyd unrhyw holiadau.

Darllenodd Iona Evans yr adroddiad. Dywedwyd bod y sefyllfa ariannol yn gadarn gydag arian wrth gefn ar gyfer prosiectau. Cofnodwyd bod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant gyda'r taliadau aelodaeth yn dangos fod tua'r un nifer yn ymaelodi ac yn gadael y Gymdeithas.

O ran gwariant, tynnwyd sylw bod cynhyrchu'r ddau gylchgrawn a'u dosbarthu yn rhoi'r pwysau mwyaf ar y tâl aelodaeth. Dywedwyd bod y cylchgronau'n hanfodol i alluogi aelodau i ddilyn hynt a helynt gweithgareddau tri rhanbarth y Gymdeithas a chofnodi sylwadau gwirfoddolwyr am fyd natur. Nodwyd ei bod yn annhebyg y byddai costau cynhyrchu'n lleihau. Adroddwyd bod costau stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod hefyd yn cynyddu'n flynyddol a thynnwyd sylw na ellir osgoi talu am yswiriant, bancio ac uwchraddio sustemau cyfrifiadurol.

Dywedwyd bod y daith flynyddol a'r Gynhadledd yn hunan-gynhaliol ond esboniwyd bod incwm y ddau ddigwyddiad a'r gwariant yn ymddangos ar fantolenni dwy flwyddyn.
Esboniodd y Trysorydd ei bod wedi mwynhau'r swydd yn fawr ond ei bod wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi oherwydd amgylchiadau personol. Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd.

Diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd am ei hadroddiad calonogol.

13. DERBYN Y FANTOLEN ARIANNOL A PHENODI'R TÂL AELODAETH

Cynigiodd Wesley Evans ac eiliodd Philip Williams dderbyn y fantolen. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i beidio â newid y Tâl Aelodaeth ym mis Gorffennol 2024.

14. PENODI ARCHWILYDD ALLANOL

Cynigiwyd caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith benodi archwilydd allanol yn ôl y drefn arferol a chytunwyd drwy ddangos dwylo.

15. ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWAITH

Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Gwaith wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynhaliwyd arbrawf llwyddiannus gyda chwrdd ym mis Medi yn lle mis Awst a hefyd gyda chynnal cyfarfod rhithiol gyda'r nos yn lle yn y prynhawn.

Dywedodd ei bod yn falch bod Dafydd Lewis wedi gwirfoddoli i ddilyn Rob Evans yn swydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth.

Adroddodd fod y Gymdeithas wedi cynnal taith lwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon a diolchodd i Carys Parry am drefnu tair Taith Flynyddol. Dywedodd ei bod yn falch bod John Griffith, Gareth Wyn Jones a Jackie Willmington wedi cytuno i drefnu'r Daith Flynyddol yn 2024.

Nododd fod stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod wedi denu llawer o aelodau a dywedodd bod pobl wedi mwynhau darlith y Gymdeithas. Diolchodd i Hywel Madog ac Enid Jones a'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith. Ychwanegodd ei bod yn falch y byddai'r Eisteddfod nesaf mewn ardal newydd, sef Rhondda Cynon Taf.

Diolchodd i'r holl bobl a oedd wedi hwyluso gwaith y Cadeirydd. Dywedodd y byddai'n falch o dderbyn unrhyw sylwadau ar waith y Pwyllgor Gwaith. Ychwanegodd y byddai'n croesawu clywed gan unrhyw aelod a ddymunodd awgrymu taith, cynnig arwain taith neu fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Llywydd yn fawr i Iona am ei gwaith.

16. UNRHYW FATER ARALL Dim

17. Y CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF

Dywedodd Elizabeth Roberts fod y Gymdeithas bwriadu cynnal Cynhadledd 2024 yng ngogledd Cymru ac y byddai'n cysylltu â gwestai yn fuan.

Adroddodd y Llywydd fod y Pwyllgor Gwaith wedi trafod fformat y Gynhadledd gan ystyried cyfarfod undydd a chadw at leoliad yn y canolbarth yn lle ymweld â'r gogledd a'r de bob yn ail. Mynegwyd pryder na fyddai aelodau'n fodlon teithio o bell ar gyfer cyfarfod undydd. Awgrymwyd ambell leoliad gan gynnwys Plas Tan y Bwlch, Llangollen, Nant Gwrtheyrn, Sir Benfro, Sir Fflint a Sir Fôn. Tynnodd Elizabeth sylw bod rhaid cofio nifer o ystyriaethau gan gynnwys parcio, cost ac argaeledd ystafelloedd sengl a lifft

Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth am ei gwaith yn trefnu'r Gynhadledd. Ychwanegodd y Llywydd ei ddiolch i Elizabeth ac i bawb a oedd wedi cyfrannu at drefnu'r Cyfarfod Blynyddol.